



Croeso i rifyn eisteddfod “Cwmni”!

Plant ysgolion y sir yn croesawu'r Eisteddfod yng nghysgod castell Caerffili.

Mwy o fanylion ar y dudalen gefn.....



Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloghme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Dyluniwr: Gareth Williams bocspostgap@btinternet.com

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas99@btinternet.com

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk
02920 862428/ 07891916046

Digwyddiadur: Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Bethan Mair Jones a Morgan Roberts

Tanysgrifio: Marian Fairclough a Jan Penney

Pwyllgor: Eleri Betts, Eirlys Thomas, Gwilym Thomas,
Dafydd Islwyn, Tamsin Graves

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cynnyhoeddi. Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau yn unol a gofynion golygyddol.

Dosbarthwyr

Gorllewin Caerffili: Meirion Powell

Pen y Cwm: Gwilym ac Eirlys Thomas

Ystrad Mynach: Gwyn a Edward Thomas

Bargoed: Byron Shyde

Penpedairheol: Meira Richards

Tonyfelin; Graham Lewis

Bethel: Eirian Thomas

Ene'rglyn: Heulwen a Dennis Jones

Penyrheol: Denzil John

Dwyrain Caerffili: Dorothy Morgan a

Catrin Rowlands

Watford: Heulwen Jones a Huw Jackson

Sant Martin: Nia Parsons

Lon y Llyn: Wilma Davies

Post: Dafydd Islwyn

Ysgolion: Ben Jones

Diolch i Tower Print am noddi'r rhifyn arbennig hwn o "CWMNI"

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Mrs Lil Greening, Tredomen, a fu farw ddiwedd mis Ebrill. Magodd Lil dair merch, Mair, Gillian a Rose.

Daeth newyddion am farwolaeth tad Kevin Viney, Bargoed. Hanai'r teulu o Dredegar Newydd. Ein cydymdeimlad â Kevin, Marian, Sara, Dafydd a Rhodri.

Mae ein meddyliau gyda David a Judith Phillips a'u plant yn Windsor St, Caerffili yn dilyn marwolaeth mam Judith.

Hefyd, Mrs Ann Price-Walker sy'n byw yn y Deri ac sydd newydd gladdu ei mam. Estynnwn ein cydymdeimlad i Ann, Colin ac i Gwyn a Hywel a'u teuluoedd.

Ddechrau mis Mai daeth y newyddion trist am farwolaeth Mervyn Burtch y cyfansoddwr enwog. Cydymdeimlwn â Rita ei wraig a fu'n gofalu amdano yn ystod ei salwch.

Wyneb adnabyddus arall sydd wedi'n gadael yw Ray Davies y cynghorydd o Fedwas. Cydymdeimlwn â Wendy, David, Steven, Sarah, Carwyn a Tad yn eu colled.

Dyma ddyddiadur Sara Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, blas o'i tair blynedd hectig!

Gwahodd Eisteddfod Caerffili i'r ardal – 27ain o Fehefin, 2012.

Am noson gyffroes! Es i draw i Lancaiach Fawr heno lle roedd pobl Sir Caerffili yn estyn gwahoddiad swyddogol i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i ddod i Gaerffili ym Mai 2015. Roedd ysgubor Llancaiach Fawr dan ei sang – teimlai fel bo hanner y Sir yno! Ac yn unfrydol, derbyniwyd y cais i gynnal yr Eisteddfod ar dir y Maenordy Tuduraidd. Mae tair blynedd o waith caled o'n blaenau!



Noson gyntaf y pwyllgorau – 19eg o Fedi, 2012

Heb fawr o dalent i gynnig i unrhyw bwyllgor arbenigol, es i heno i'r Pwyllgor Technegol wrth i'r pwyllgorau testun gael eu sefydlu yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Dwy'n siwr gallent wneud tro ar ferch fach o'r Cwm sydd â digon i'w ddweud i helpu gyda'r gwaith o drefnu parcio, carafanau a'r maes yn gyffredinol.

Pwyllgor Gwaith cyntaf – 17eg o Hydref 2012.

O'n i'n gwybod y byddai fy ngheg fawr yn fy nghael mewn i drafferth ryw ddydd – a dyma 'ny wedi digwydd. Wedi cael fy ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith heno – o mam fach!

Dydd Gŵyl Ddewi -2014

Wastad wedi meddwl fy mod yn byw yng nghwmni pobl arbennig, ond roedd heno wir wedi tanlinellu ymroddiad, cyfeillgarwch a Chymreictod pobl Sir Caerffili. Gyda gwledd wedi ei threfnu yn y Castell i ddathlu ein diwylliant, daeth Cymry Cymraeg a di-Gymraeg ynghyd i fwynhau yng nghwmi Wyn Evans a Huw Chiswell. Noson wefreiddiol – a dros £2000 wedi'i godi Digwyddiad blynyddol?!!

Eisteddfod Bala – 31ain o Fai, 2014

Wel – y ni fydd nesaf bois. Balchder mawr wrth ffarwelio â'r seiclwyr o faes yr Eisteddfod bore 'ma, wrth iddynt seiclo'r 134 o filltiroedd i Lancaiach Fawr. A heno wedi derbyn baner yr Urdd ar ran pobl Sir Caerffili ar lwyfan yr Eisteddfod. 359 o ddiwrnodau i fynd!

Wythnos yr Ŵyl Gyhoeddi – 4ydd o Hydref, 2014

Dal ychydig o anghrediniaeth o'r hyn a welais heddiw. Wedi wythnos lawn gweithgareddau a ddechreuodd yng nghwmni Côr Cwm Ni a Dawnsyr Bro Taf yn Nelson nos Sadwrn diwethaf, Only Men Allowed yn y castell neithiwr, cafwyd ein diwrnod swyddogol i gyhoeddi'r Eisteddfod. Bu dros 80 o wirfoddolwyr yn stiwardio'r strydoedd – a stopiwyd y traffig. Gorymdeithiodd dros 4000 o ben y dref i'r castell gyda'r haul yn gwenu'n odidog arnynt. Wna i byth anghofio cyrraedd y castell ac edrych am nôl i weld neidr di-ddiwedd o ieuenctid y Sir yn eu coch, gwyn a gwyrdd. Bu dagrau! Plant a phobl Sir Caerffili – roeddech ar eich gorau heddiw!

Eisteddfodau Rhanbarth – 21ain o Fawrth, 2015


Dyna ddiwedd ar yr Eisteddfodau Rhanbarth – ac am lwyddiant! Y niferoedd mwyaf erioed wedi bod yn cystadlu yn Rhanbarth Gwent – 5600 o aelodau Urdd, 1800 yn fwy na llynedd. Aelodaeth uchaf unrhyw ranbarth yng Nghymru! Bu dros hanner ysgolion Saesneg y Sir yn cystadlu, ac allan o 95 o gystadlaethau, enillwyd 40% gan ysgolion nad ydynt erioed wedi cystadlu o'r blaen. Teyrnged i'r gwaith aruthrol mae Helen Greenwood ac Angharad Jones wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth yr Urdd o fewn y rhanbarth – chi'n haeddu medal.

Torri tywarchen – 22ain o Ebrill, 2015

Hir yw pob aros... ond dyma hi ar y gorwel. Torrwyd y tir yn Lancaiach Fawr heddiw, a dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu maes Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015. Ymhen 33 o ddiwrnodau bydd y Maenordy yn agor ei ddrysau i dros 80,000 o ymwelwyr, a bydd y croeso cynhesaf yn aros amdanynt. Cymru - dewch yn llw, mae Caerffili yn disgwyl!

Mrs Eleri Betts

Llywydd Merched y Wawr, Cwm Rhymni



Llyfr diddorol iawn sydd newydd ei lansio yw “Dy Bobl Di Fydd Fy Mhobl i” gan y Lolfa. Yr awdur yw Zonia Bowen, un o’r criw a sefydlodd y gangen gyntaf o Ferched y Wawr yn Y Parc, Y Bala yn 1967. Daeth y Saesnes, a ddysgodd siarad y Gymraeg yn rhugl, yn llywydd cenedlaethol ar y mudiad, ond yn 1975 fe ymddiswyddodd. Ac yn y llyfr mae hi’n egluro’r anghydfod a arweiniodd at ei phenderfyniad i wneud hynny.

Blino oedd Zonia bod gormod o bwyslais crefyddol yng nghyfarfodydd y mudiad. Teimlai’n gryf am hyn gan ei bod yn anffyddiwr o argyhoeddiad. Roedd wedi priodi’r bardd Geraint Bowen a chefnodd yntau ar ei ffydd er bod ei frawd Euros, bardd arall, yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Diddorol yw darllen yn y llyfr am agwedd Geraint Bowen at grefydd ac yntau’n Archdderwydd Cymru yn arwain y seremonïau.

Mae’r teulu yn hanu’n wreiddiol o Dreorci, Y Rhondda Fawr, ac yn perthyn i’r bardd Ben Bowen. Ond yn fwy diddorol i ni yn nalgylch “Cwmni” yw bod Geraint ac Euros Bowen yn frodyr i fam Llywydd Merched y Wawr ein hardal ni.

Magwyd Eleri Betts yn ardal Llanon, Ceredigion. Deallwn hefyd fod gan y deulu gysylltiadau cynnat ag ardal Caerffili. Hefyd, bu tad y beirdd enwog hyn a mam Eleri, Y Parchedig Orchwy Bowen, yn weinidog yng Ngheir Newydd am gyfnod wedi’r Ail Ryfel Byd. Yno, hefyd, roedd Dylan Thomas yn byw pan ysgrifennodd ei ddrama enwog i leisiau, ‘Dan y Wenallt’ a chred rhai mai’r Parchedig Orchwy Bowen oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i greu cymeriad y Parchedig Eli Jenkins.

Aeth Eleri ymlaen i astudio’r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth lle cyfarfu â’i gŵr Clive. Yno, bu’n rhan o lwyddiant Aberystwyth pan enillon nhw darian yr Eisteddfod Rynggolegol. Roedd ei chyfnod yn y Coleg ger y Lli yn un cythryblus a hanesyddol gan ei bod yno adeg darllediad “Tynged yr Iaith” Saunders Lewis. A hynny, wrth gwrs, yn arwain at brotestiadau cyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Bu Eleri yn flaengar yn yr ymgyrchu hynny. Wedi graddio a chymhwyso’n athrawes, cyflawnodd Eleri rychwant o swyddi. Bu’n athrawes mewn Ysgol Ramadeg ac yn drefnydd gyda Mudiad Ysgolion Meithrin cyn dychwelyd at ei phriod waith, a hynny yn y sector gynradd. Gan fynd o fod yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod, hi sefydlodd yr Uned Gymraeg yn Ysgol Tir y Berth.

Symudodd ymlaen i fod yn ddarlithydd yn y Coleg Hyfforddi Athrawon yng Nghyncoed. Yno enillodd gymwysterau arolygu, gan ddilyn ôl troed ei ewythr Geraint a fu’n un o Arolygwyr Ei Mawrhydi. Parhaodd gyda’r gwaith arolygu wedi iddi ymddeol o’i swydd yn y coleg.

Mae mab Eleri a Clive, Aled, erbyn hyn yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth tra bod Catrin, eu merch, yn athrawes yn Ysgol Gyfun y Cymer. A phan nad yw Eleri’n brysur yn llywio gweithgareddau Merched y Wawr mae hi a’i gŵr yn dwlu ymgymryd â’u gorchwylion yn rhieni-cu.



Clive ac Eleri yn mwynhau’r Eisteddfod

Llwybrau gan Eirlys Ashton

*"Hen, hen yw'r llwybrau ar hyd
dy gefn lle bu'r tadau gynt." Dafydd Islwyn*

Tu ôl i'r gwrychoedd sy'n ymylu'r caeau a'r hewlydd mae llwybrau cuddiedig - adlais olion traed ein cyndeidiau - ac mae milltir sgwâr yr eisteddfod yn frith o'r llwybrau hynny.

O gwmpas maenordy Llancaeath Fawr mae rhwydwaith o lwybrau fu'n arwain gynt at y ffermydd sydd yn britho'r ardal ers y canoloesoedd. Hawdd dychmygu teuluoedd yn ymlwybro i fyny rhiw serth Heol Gelligaer (a elwir yn lleol yn 'Top Hill') pan nad oedd ond lôn fach gul, i addoli yn eglwys Normanaidd Sant Catwg. Yma yn oes y seintiau roedd cell Sant Catwg, mab Gwladys a hithau'n ferch i Brychan Brycheiniog. Mae ei chapel hi ar ben y comin a'i chroes yn eglwys Gelligaer. Erbyn yr ail ganrif ar bymtheg byddai llawer o'r boblogaeth leol wedi troi at Anghydfurfiaeth ac yn gorfod addoli'n gyfrinachol yn eu cartrefi rhag colli eu tiroedd a'u heiddo.



Eglwys Sant Catwg, Gelligaer

Ni wyddent bryd hynny y byddai
Anghydfurfiaeth yn ffynnu a dod yn ffurf
dderbyniol o addoli.

Drws nesaf i'r eglwys mae olion y Gaer
Rufeinig lle bu milwyr yn ceisio cadw
rheolaeth ar y llwythi lleol, y Silwriaid.
Merlod yn pori'n dawl ar y cae gwyrdd a
welir heddiw a phlac i esbonio hanes y
gaer.

Yr ochr arall i'r eglwys, yn cuddio tu ôl i'r
swyddfa bost, mae olion Twyn y Castell,
sydd erbyn hyn yn rhan o erddi'r tai sy'n
ei gwmpasu, ond yma oedd un o gestyll
arglwyddi Senghennydd a fu'n brwydro'n
gadarn yn erbyn gormes y Normaniaid.

O dan y tir oddeutu 'Top Hill' mae olion
anweladwy'r diwydiant glo brig fu'n

britho'r tir yng nghyfnod yr 1800au. Rhwng 1840 ac 1842 anfonwyd dau Arolygwr i ymchwilio amodau gwaith y plant a weithiai ym mhwl 'Top Hill' a Llancaeath. Gwaith caled a blinedig. Nodwyd geiriau'r plant ganddynt. Dyma a ddywedodd Richard Rees 7 oed: *"Rwy'n helpu i lwytho'r glo mae nhad yn ei dorri. Weithiau fe fydd yn gadael i fi dorri ychydig o lo yn yr ardal lle mae'n gweithio. Rwy'n gweithio am ddeg awr y dydd. Weithiau fe fydd arna i eisiau bwyd. Chwecch oed oeddw'n i pan ddechreuws weithio yn y pwll. Dim ond Cymraeg alla i siarad."*

Rhaid ymweld â'r comin wrth droi i fyny lôn gul Heol Adam, heibio tafarn 'Y Cross'. Yma ar ben y comin fe welwch gerrig sydd wedi cael eu gosod gan Gyngor Caerffili i ddynodi prif nodweddion hanes cynnar y comin, yr hen Heol Rufeinig, y tai llwyfan oedd yn hafdd i rai o arweinwyr y Cymry megis Ifor Bach. Fe welwch, os edrychwch yn ofalus, olion beddau Oes yr Efydd yn gylchoedd yn y borfa, ac nid yw'n anodd credu y gelwir hwn yn fynydd sanctaidd gan yr archeolegwyr oherwydd arwyddocâd ysbrydol y lle, ac olion claddu cenedlaethau ar hyd y canrifoedd.

Uchafbwynt y comin yw Carn Bugail. Gellir cerdded tuag ato wrth droi i'r chwith tuag at Bedlinog. Man claddu Oes yr Efydd yw hwn, ond y mae golygfeydd godidog oddi yno tuag at y Bannau o un cyfeiriad, creithiau gwaith glo brig Ffôs y Frân o gyfeiriad arall, a mynydd y Garth a'r môr i'w gweld ar ddiwrnod clir.

Os am gerdded ar dir llai serth, llwybr hawdd ei ganfod yw'r llwybr beicio sydd yn agos iawn i faes yr eisteddfod. Trowch i'r chwith tuag at Trelewis ac fe ellir ymuno â'r llwybr mewn sawl man. Gellir cerdded tua'r gogledd i gyfeiriad Bedlinog a'r ganolfan ddringo ac i'r de tuag at Barc Penallta, Ystrad Mynach a thu hwnt. Mae'r llwybr hwn, yn enghraifft o adfywiad tir diwydiannol lle bu gynt byllau glo. Pwll Penallta oedd yr olaf i gau ym 1991.

Caerffili Ddoe a Heddiw' Dr Cathryn A. Charnell-White

Deuthum i Aberystwyth yn 1991 i astudio yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, ac rwy wedi byw yng nghyffiniau'r dref honno byth ers hynny. Er fy mod yn gorfod byw 'Caerffili Heddiw' yn ddirprwyol drwy hanesion fy rhieni a Nerys fy chwaer (heb sôn am ôl-rifynnau o 'Cwmni'), mae'n rhyfedd cymaint y mae fy ngwaith fel hanesydd llên y Cyfnod Modern Cynnar (1500–1800) yn dod â mi i gysylltiad â chymeriadau 'Caerffili Ddoe'.



Wrth gasglu cerddi Cymraeg gan fenywod ar gyfer y flodeugerdd *Beirdd Ceridwen* (2005), roeddwn wrth fy modd pan ddeuthum o hyd i brydyddes o Gaerffili. Catherine Jones (*fl.* 1808) oedd ei henw ac mae ei marwnad i un o Fethodistiaid yr ardal yn dangos sut yr ystyrid canu crefyddol yn gyfrwng 'priodol' i ferched. Daeth y prosiect 'Cymru a'r Chwyldro Ffrengig' â mi wyneb yn wyneb, fel petai, ag un o feibion Caerffili, sef yr athronydd David Williams (1738–1816), Waunwaelod a gynorthwyodd y Girondiaid i lunio eu cyfansoddiad yn dilyn y Chwyldro Ffrengig. Ef, mae'n debyg, a gyflwynodd Talleyrand i Edward Williams (Iolo Morganwg; 1747–1826). A dyma ddod at gysylltiad arall â'r dref.

Wrth dwrio trwy archif Iolo Morganwg deuthum o hyd i ddeunydd hynod ddiddorol

sydd yn dadlennu ei weithgarwch dyngarol, ynghyd â'i gysylltiad â 'Caerffili Ddoe'...

Bu Iolo yn eiriol dros bobl gyffredin anllythrennog a ddygwyd gerbron eu gwell ac, ymhlith y rhain, roedd achos merch ifanc o'r enw Catherine Thomas, neu 'Cati Caerffili', ym 1819.

Trigai'r ferch amddifad yng Nghaerffili gyda pherthnasau diofal ac, yn bump oed, bu'n gweithio yn un o ffatrioedd gwlân y dref. Ar ôl iddi gael ei dal yn dwyn, bu'n crwydro'r wlad rhwng Caerffili a Threfflemin, plwyf ei rhieni. Cafodd ei thrin yn frwnt gan swyddogion y plwyf hwnnw ac ysgrifennodd Iolo at y Barnwr Wingfield a'r bardd David Rowlands (Dewi Brefi) i achub ei cham:

...she was always treated with contempt and harshness by her employers, she never experienced any acts or expressions of kindness from any one whatever...

...But she possesses talents that, improved by education, would have rendered her a female of very superior character. Under all disadvantages she has taught herself to read Welsh and English with more correctness than many who have been years in school...

Trefnodd Iolo iddi fynychu sefydliad arbennig yn Llundain, sef 'The benevolent institution for the reformation of Criminal orphans and of the orphans of criminals'. Er iddi absenoli, mae lle i gredu bod diwedd glo hapus i'w stori, oherwydd mae llythyr a luniodd Iolo at ei ferch, Nancy, yn 1824 yn cyfeirio at 'Catherine Thomas and family'. (Gweler *A Rattleskull Genius* (2005))

A dychwelyd i 'Gaerffili Heddiw', rwy'n edrych ymlaen at gael bod yn rhan uniongyrchol o'r dathliadau yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili ac rwy wrth fy modd mai'r eisteddfod yng Nghaerffili fydd eisteddfod gyntaf fy mab bach wyth mis oed, Seth.

Atgofion am eisteddfota yng Nghwm Rhymni – Dr Sian Rhiannon Williams



Disgyblion Ysgol Gymraeg Rhymni gyda'u prifathrawes, Mrs Lizzie Wall, a'u hathrawes, Miss Marian Evans, ar ôl ennill Cwpan Tilley yn Eisteddfod yr Urdd ym 1962.

Rhes gefn: Mrs Lizzie Wall, Bryn Oakley, John Owen Griffiths, Miss Marian Evans

Rhes ganol: Dilys Young, Sian Jenkins, Sally Williams, Paul Phillips, Hefin Morgan, Ann Bell Richards (yn gwisgo tei yr Urdd), Janet Oakely

Rhes flaen: Sian Rhiannon Williams, Gail Lewis, Susanne Smith, Heulwen Phillips

Bwrlwm, prysurdeb plant cyffrous a nerfus, mamau llwythog yn cario cotiau a bagiau o frechdanau a theisen lap, gwynt polish y lloriau blocs pren, llwyfan uchel, arweinyddion awdurdol ond caredig yn ein hannog, a Lily Richards, a'i gwallt gwyn a'i llygaid pefriog yn llawn egni wrth y piano. Dyna rai o'm hatgofion o 'Steddfodau Cylch yr Urdd yn ystod y 1960au pan oeddwn yn fach. Y cof cyntaf sydd gennyf o gystadlu oedd adrodd (nid llefaru!) 'Y Llyffant Bach Du' o dan 8 oed – ac rwy'n dal i gofio'r darn hwnnw, fel llawer un arall wedyn. Dwy ysgol Gymraeg oedd 'na bryd hynny, sef Ysgol Senghennydd, Caerffili ac Ysgol Rhymni. Roedd ganddyn nhw (Senghennydd) grysau coch a sgertiau gwyrdd tywyll, ac roedden ni yn ein crysau gwyn a'n sgertiau llwyd. Pawb â thei coch a gwyrdd streipiog a bathodyn trionglog yr Urdd.

Gan fod yr ysgolion yn fach, yr un plant fyddai'n cystadlu yn erbyn ei gilydd bob blwyddyn, ac yn dod yn rhyw fath o ffrindiau o bell oherwydd hynny, er gwaetha'r cystadlu brwd. Ennill y Côr dan 12 oed oedd y nod mawr, ond mynd sha thre 'da'r cwpan mawr arian – Cwpan Tilley – oedd yr uchafbwynt. Y tro cyntaf yr enillon ni'r cwpan fe gawson ni'r fath groeso nôl yn Rhymni, roedd fel tîm pêl-droed yn dychwelyd wedi ennill cwpan yr FA! Roedd ein marciau'n cyfrif tuag at gyfanswm marciau Sir Fynwy yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ychydig o farciau, ond balchder mawr!

Erbyn canol y 1960au, eisteddfodau'r Urdd oedd yr unig eisteddfodau y bydden ni blant Rhymni yn cystadlu ynddyn nhw, ond mae gennyf gof cynnar iawn o adrodd ('Y Pwff Pwff Trên' rwy'n credu!) yn hen Eisteddfod Rhymni a gynhaliwyd yn neuadd Ffatri Smiths, ac ennill hanner coron (llawer iawn o arian bryd hynny) mewn bag bach sidan gwyrdd a melyn wedi'i wnïo'n hardd, a'r hynafgwr Isaac Herriman yn fy llongyfarch. Atgyfodwyd Eisteddfod Rhymni yn y 1980au mewn pabell ar 'Gae'r Eisteddfod' a rhoddodd yr eisteddfod honno gyfle i genhedlaeth newydd o blant i eisteddfota yn y cwm.

Dau Ffisegydd ac Un Ffisigrwr - Dr Neville Evans

Ganed Phillip James Stradling Williams ar Ionawr 11eg, 1939 yn Nhredegar, ond fe'i magwyd ym Margod, Cwm Rhymni. Yno y bu'n ddisgybl yn yr Ysgol Iau cyn symud ychydig i lawr y cwm i dderbyn ei addysg uwchradd yn Ysgol Lewis y Bechgyn, Pengam. Yn fuan daeth ei ddoniau academiaidd yn amlwg gan ei alluogi yn y man i fynd i Goleg Clare, Prifysgol Caergrawnt i ddilyn cwrs ffiseg; unwaith eto ei ddisgleirdeb a nodweddodd ei yrfa.

Wedi gorffen ei gwrs ac ennill gradd bachelor, arhosodd yng Nghaergrawnt i ddilyn ymchwil i'w hoff faes, y gofod. Ffrwyth ei ymchwil oedd traethawd Ph.D. ar 'quasars', sef, cyrff yn y gofod sy'n ymdebygu i sêr ac yn ffynonellau pelydrau radio (dim cysylltiad gyda sain).

Yn 1967 apwyntiwyd Phil (a dyna'r enw cyfarwydd i lawer) i staff yr adran ffiseg yn y brifysgol yn Aberystwyth. Bu yno am weddill ei yrfa, yn gyntaf yn Ddarlithydd, yn Ddarllenydd yn 1987 ac yn Athro yn 1991. Yn Aber arweiniodd dîmau ymchwil gan ennill clod rhyngwladol uchel iawn. Yn benodol roedd y



gwaith yn cynnwys astudiaethau solar-daeareol, sef, astudio'r ymbelydredd (cosmic radiation) a ddaw o'r haul ac yn effeithio'n Daeareol, gan syllu ar yr haen yn yr atmosffêr sy'n rhy uchel i falŵn ac yn rhy isel i loeren.

Colled fawr i ffiseg ryngwladol ac i Gymru, yn enwedig ar gyfrif ei waith gwleidyddol, oedd ei farw ddisymwth ar y 10fed o Fehefin 2003.

Deuddydd cyn ei farw roedd Phil yn dadorchuddio plât i goffhau un o fechgyn nodedig pentref Cwmsychpant, nid nepell o Lanbedr Pont Steffan. Yr Athro Evan James Williams oedd hwnnw, un a gyd-gerddodd gyda chewri mawr iawn yr ugeinfed ganrif ym maes astudiaethau i berfeddion atomau, sef, deunydd crai popeth, yn fyw ac anfyw. Apêl Phil wrth ddadorchuddio oedd ar i bob pentref a bro wneud rhywbeth tebyg er mwyn sicrhau bod trigolion Cymru yn gwybod ei bod, nid yn unig yn wlad beirdd a chantorion, ond hefyd yn wlad gwyddonwyr o fri.

Teg nodi bod gan Phil frawd, David, a oedd hefyd yn disgleirio yn yr un ysgolion a'r un coleg yng Nghaergrawnt. Meddyaeth oedd arbenigedd David. Ar gefn hyn gwasanaethodd gleifion Bargod a'r cyffiniau ar hyd ei oes yn feddyg teulu. Erbyn hyn mae'n mwynhau ymddeoliad ym Margod yn dilyn ei ddiddordebau, gan gynnwys ffotograffiaeth.

Os bu erioed achos da i ddadorchuddio plât dwbwl i goffhau dau frawd doniog, go brin bod achos teilyngach. Beth amdani, Fargod?

*

Teneuach o dipyn yw'r cyswllt rhwng yr ail ffisegydd a bro Eisteddfod yr Urdd eleni, ond mae'n haeddu cofnod. Ganed Brian Josephson yng Nghaerdydd ar y 4ydd o Ionawr 1940, ond treuliodd ei flynyddoedd cynnar yn Ystrad Mynach, Cwm Rhymni, nid nepell o Gaerffili. Does gen i ddim gwybodaeth am y cyfnod hwn, ond tybed a feddyliai'i rieni y byddai Cwm Rhymni yn cynnig lloches saffach na Chaerdydd ar adeg flin yr Ail Ryfel Byd? Tybed a oes ymhlith darllenwyr Cwmni rywun a all daflu goleuni ar y dirgelwch?

Yn y ddinas y cafodd ei addysg ysgol, Ysgol Gynradd Y Rhath ac Ysgol Uwch y Bechgyn. Os bu disgybl llachar o alluog erioed, yn nodedig o wahanol i'r cyffredin mewn mathemateg a ffiseg, Brian Josephson oedd hwnnw. Yn y cyfnod hwn daeth ei fam, Mimi, yn adnabyddus yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ei hymdrechion i gael systemau addysg i gydnabod disgyblion gwir alluog a darparu ar eu cyfer.

O'r ysgol aeth i brifysgol Caergrawnt i ddilyn cwrs ffiseg yn y Labordy Cavendish, gan ennill graddau amrywiol ar sail ei gyrsiau israddedig ac uwch ar sail ei ymchwil. Canolbwyntiodd ar nodweddion trydanol y cyflwr solet, gwaith a arweiniodd at ddealltwriaeth ragorach o dipyn o'r cyflwr hwnnw a dod yn sail i holl fyd newydd dyfeisiau cyfathrebu heddiw. Arwydd o'i arbenigrwydd yw bod dyfais wedi'i henwi ar ei ôl (deud Josephson/ Josephson diode).



Yn 1970 (30 oed) etholwyd ef yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol (FRS yn Saesneg) ac yn 1973 (33 oed) enillodd Y Wobr Nobel (gyda dau arall) am ffiseg. Rhyfeddol! Ef yw'r unig Gymro sy'n enillydd y wobr ryngwladol aruchel hon.

Ers y blynyddoedd rhyfeddol hyn trôdd Josephson ei gefn ar ffiseg gonfensiynol (er ar lefel y tu hwnt i'r mwyafrif) er mwyn canolbwyntio ar y berthynas (os oes un) rhwng meddwl a mater – ffenomenau seicig, megis telepathi. Daliodd ar ei swydd yn Athro yn y Cavendish ac yno y bu am weddill ei yrfa.

Tipyn o sioc i'w gyd-ffisegwyr oedd ei newid cyfeiriad a hynny yn achos sawl sylw dirmygus. Ond, pwy a wŷr beth all fod yn llechu ym meddwl athrylith mor wahanol i'r cyffredin?

Llongyfachiadau

Estynwn ein llongyfarchiadau cynhesaf i Eleri Jones, Bryn Siriol, Caerffili, ar ennill Doethuriaeth mewn Polisi Cymdeithasol yn y London School of Economics.

Wedi gadael Ysgol Ifor Bach cafodd Eleri yrfa ddisglair yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni cyn mynd ymlaen i ennill gradd ym Mhrifysgol Manceinion mewn Therapi Llafar. Aeth ati wedyn i ennill dwy radd Meistr yn yr LSE, y naill ar Poblogaeth a Datblygiadau a'r llall am ymchwil ar Bolisi Cymdeithasol. Deallwn bod ganddi swydd nawr gyda llywodraeth yn San Steffan.



~~~~~



Derbyniodd y bardd Dafydd Islwyn Ddyfarniad Oes am ei gyfraniad tuag at farddoniaeth Gymraeg. Cyflwynwyd yr anrhydedd i Islwyn yn rhan o'r Fedwen Lyfrau a gynhaliwyd yng Nghanolfan Soar, Pontmorlais, ddydd Sadwrn yr 2ail o Fai eleni. Gwnaed y cyflwyniad gan Gadeirydd Cwlwm Cyhoeddwy Cymru, Glyn Saunders Jones mewn digwyddiad a drefnwyd gan Bethan Mair, gynt o Wasg Gomer.

Cyfarchwyd ein bardd lleol gan y Prifardd Tudur Dylan Jones gyda'r englyn hwn,

Rhoi i'r tŷ wna'r gŵr a'r tad, - rhoi â'i wen  
a rhoi a wna yn wastad  
â'r union wên i'w lôn a'i wlad  
â geiriau iddo'n gariad.

~~~~~

Un arall a anrhydeddwyd â doethuriaeth yw'r Parchedig Ddoctor R. Alun Evans, a oedd tan yn ddiweddar yn weinidog ar gapel Bethel, Caerffili. Deallwn i Alun dderbyn yr anrhydedd yn gydnabyddiaeth o'i wassanaeth ddiflino dros ein hiaith a'n diwylliant.

Atgofion Mrs Eleri Rogers

Drigain mlynedd yn ôl roedd Caerffili'n lle gwahanol iawn i'r hyn ydyw heddiw. Ond synnwn i ddim nad oedd paratoi ar gyfer Steddfodau Cylch a Sir yr Urdd – ac ar adegau prin iawn Yr Eisteddfod Genedlaethol – yn go debyg.

Dim ond ar ôl dechrau fel disgybl yn Ysgol Ramadeg y Merched tua 1945 y cefais fy hudo i'r byd eisteddfodol, a hynny'n bennaf drwy steddfod flynyddol Gŵyl Ddewi'r ysgol.



Roedd y cystadlu brwd rhwng y 'tai' sef Castell, Cennydd, Elen-deg a Gledyr ar bob math o gystadlaethau yn esgor ar frwdfrydedd heintus, yn enwedig yn yr wythnos flaenorol pan gynhelid y rhagbrofion. Ar y diwrnod ei hun, y côr a'r cyd-adrodd oedd uchafbwynt y cystadlu gan mai nhw, wrth gwrs, oedd yn cario'r marciau uchaf.

Miss Mary Thomas, yr athrawes Gymraeg a ddaeth wedyn yn brifathrawes yr ysgol, oedd arch-bensaer yr achlysur. Er ei bod hi ac

ambell athrawes arall a gadwai'r cyfrif yno yn y cefndir, nyni'r disgyblion hynaf a lywiau'r eisteddfod – a hynny'n bennaf drwy'r Gymraeg. A dyna'r unig ddiwrnod yn y flwyddyn pan fyddai'r neuadd yn un gloddest o liw rhwng y rhubanau a wisgem a'r mascots a chwifem yn lliwiau'r tai (melyn, glas, porffor a choch) heb sôn am y cennin ffug a'r cennin pedr.

Am ddiwrnod cyfan, er ffyrniced y cystadlu, roedd y brwdfrydedd a'r hwyl yn peri bod y Gymraeg a Chymreictod yn teyrnasu yn yr ysgol. Tipyn o gamp o gofio mai dim ond rhyw chwech ohonom drwy'r ysgol i gyd – gan gynnwys fy chwaer Nest a minnau – a siaradai Gymraeg. A chan gofio hefyd y byddai yna ddewis bryd hynny rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg ar gyfer y G.C.E.

Yn amlach na pheidio, darnau o restr Testunau Eisteddfod yr Urdd fyddai'r dewis ar gyfer steddfod yr ysgol – ac felly y buddugwyr gan amlaf âi ymlaen i'r Steddfod Gylch. Rhyw ladd dau aderyn ag un ergyd, fel petai! Weithiau, gan fod cyn lleied o gystadleuwyr yn y De Ddwyrain bryd hynny, byddid yn uno'r Steddfod Gylch a'r Sir.

Fel rheol yn neuadd Ysgol Ramadeg y Bechgyn y cynhelid Steddfodau'r Urdd – ar wahân i ambell daith anturus i'r Rhymni. A rhwng ysgolion Cwm yr Aber, Caerffili, Hengoed a Rhymni y byddai'r ymryson, fynychaf. Gan mai llond llaw yn unig o Gymry iaith gyntaf oedd yn y cwm i gyd, daethom i led adnabod ein gilydd rhwng rhagbrawf a llwyfan. Prin iawn y gwelid bechgyn yn agos i'r cystadlu!

Ar y pryd, go brin hefyd y byddai'r dychymyg mwyaf gwallgof wedi rhagweld y byddai fy hen ysgol ramadeg draddodiadol wedi troi'n gartref i ysgol gynradd Gymraeg ei hiaith – ac y byddai twf y Gymraeg wedi bod mor gadarn yn y dref.

Bydd brwydrau eraill eto i'w hymladd a'u hennill, ond hyfryd iawn yw gwybod bod cymaint o “wylwyr ar y tŵr” erbyn hyn i ddiogeli'r Gymraeg yn ein Cwm Ni.

Y LLUN: “Rhyw barti bach cyd-adrodd a fu'n cystadlu yn Steddfod yr Urdd tua 1948. Bydd rhai'n cofio'r wisg ;ysgol efallai! Gwyrdd a melyn oedd lliwiau â “berets” gwyrdd gorfodol bob amser pan fyddem yn dod neu'n mynd o'r ysgol. “Rwyf bron yn siŵr mai sefyll o flaen hen labordy Bioleg yr ysgol (drws nesaf i'r ffreutur ar y pryd) ar y llawr isaf, yr oeddem pan dynnwyd y llun.”

Dyma atgofion Dafydd Islwyn o Drelewis, pentref cyfagos i Lancaiach Fawr.

TRELEWIS


Cyrhaeddais Drelewis ddechrau mis Medi 1964 i ddechrau ar fy ngyrfa fel athro. Mis Rhagfyr 1978 gadewais y pentref glofaol. O gyfeiriad Treharris y teithiais i'r pentref, teithio heibio i lofa Deep Navigation yn ardal y lofa lle bu Yncl Owen, hen ewythr i mi, yn gweithio am flynyddoedd. Bu ef farw yn 1926 a dychwelodd fy nain o'r Sowth i fyw ar Wynydd Llwydiarth, Pentraeth, Ynys Môn.

Doeddwn i'n gwybod fawr ddim am y pentref pan ddechreuais weithio yno. Roeddwn i yn gwybod ei fod yn yr hen Sir Forgannwg ac yn rhanbarth Gelligaer a Chaerffili o ran gweinyddiaeth addysg. O dipyn i beth dysgais mai yn etholaeth Caerffili yr oedd yn perthyn ac mai Ness Edwards oedd yr Aelod Seneddol. Cyn etholiad 31ain o Fawrth 1966 bûm yn gwrando arno yn annerch ei etholwyr yn neuadd yr ysgol un noson. Cerddodd i mewn yn gyflym, siaradodd fel peiriant am ryw chwarter awr a diflannodd. Cyfarfod gwleidyddol dof iawn. Mor wahanol i rai a gynhaliwyd yn y pentref yn ystod isetholiad y 24ain o Awst 1921!

Dydd Sadwrn, y 30ain o Ionawr 1965, prynais yn Siop Lyfrau Cymraeg Beti Rhys yng Nghaerdydd, Crwydro Blaenau Morgannwg gan Gomer M. Roberts a gyhoeddwyd gan Lyfrau'r Dryw yn 1962. Gwirionais ar y ddegfed bennod, 'Rhwng Taf a Rhymni' a'r frawddeg, "Gellir mynd o'r Nelson i Gwm Bargod hefyd ar hyd y B4255 heibio i Lancaeath a Threlewis." Sbardunodd y frawddeg uchod fi i gasglu gwybodaeth am y pentref glofaol. Ar y 9fed o Orffennaf 1965 prynais gopi o 'Selected Lectures and Visits 1961 - 1964' a dysgu yn narlith D.Gethin Thomas 'Llancaiach Fawr and the Prichard Family' mai bardd y teulu oedd Dafydd Benwyn a flodeuai rhwng 1550 a 1600. Roedd hanes o'r ardal felly cyn suddo Deep Navigation!

Tarddodd Cymdeithas Hanes Gelligaer, a gyhoeddodd y llyfryn uchod, o gyhoeddiad ym mis Bach 1959 y gyfrol 'The Gelligaer Story'. Ym mis Ebrill 1969 cefais gopi ohoni yn anrheg ond roeddwn wedi ei darllen ymhell cyn hynny. Roedd yn y gyfrol wybodaeth angenrheidiol i ddod i adnabod y pentref a'r cyffiniau, ac o dipyn i beth i'w gyflwyno i'r disgyblion. Roedd hanes ym mhob twll a chornel. O'r Shingrig, heibio i dafarn Ffald Caiach i fynyr Stryd Fawr, heibio i gapel Ebenezer yr Annibynwyr at dafarn y Bontnewydd, "Y Bont" ar lafar a throi ar y dde at yr Ysgol Gynradd.

Yr hen enw ar y pentref oedd Y Bontnewydd, y pentref gwledig bychan gyda'i efail a'r felin falu yd ar y Shingrug a'r felin fach i olchi gwlân a'i drin ger Y Ffald. Prif deulu'r ardal oedd Teulu'r Lewis, Fferm Bontnewydd, y ceir cofnod ohoni yn 1601. Chwaraeodd aelod o'r teulu, William Lewis, ran amlwg yn natblygiad y pentref yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn sgil suddo pwll glo Deep Navigation yn Nhreharris.



Llun o Drelewis pan roedd y lofa'n gweithio

O dipyn i beth galwyd y pentref newydd yn Nhrelewis. Bu'n bentref glofaol am bron i ganrif. Ond mae'r wythien lyfryddol yn dal i gael ei gweithio. Soniodd Walter Haydn Davies am y Shingrug yn ei gyfrol 'Ups and Downs' (1975). Croniclodd Maggie Pryce Jones hanes ei magwraeth yn y pentref, 'Kingfisher of Hope' gwasg Gomer (1993). Ugain mlynedd yn ddiweddarach cyhoeddodd Alun Watkins, brodor o'r pentref, 'A Village Headmaster' am John Davies, brodor o Ddyffryn Aeron a fu'n brifathro yn Nhrelewis rhwng 1882 a 1913.

Beth am fynd i weld beth sydd yn ardal y Cymoedd?



Ym mhentref Senghennydd agorwyd Gardd Goffa i gofio am holl ddamweiniau y maes glo. Mae'r ardd ar safle glofa'r Universal lle collodd 439 o ddynion a bechgyn eu bywydau ar y 14eg o Hydref 1913.



Yng Nghaerffili cewch weld y castell mwyaf ond un yn Ewrop. Cwblhaodd Gilbert de Clare ei gampwaith yn 1271. Wedi ymweld â'r castell crwydrwch i fyny i Fynydd Caerffili i fwynhau'r golygfeydd godidog



Mae traphont Hengoed yn ymestyn o Hengoed draw i Faesycwmer. Yma, hefyd ceir coffadwriaeth i'r cartwnydd poblogaidd Gren.



Cynhyrchwyd crochenwaith Nantgarw ar y safle hon ym yml y gamlas sydd bellach wedi'i gorchuddio gan briffordd yr A470



Castell Coch yw ffolineb a godwyd i'r Ardalydd Bute ger Tongwynlais. Mae'n le hyfryd i grwydro ac i fwynhau picnic.



Hen lun yw hwn o bont enwog William Edwards, y drydedd ymgais i'w hadeiladu. Dyna, mae'n debyg, pam y dywedir "Tri chynnig i Gymro". Mae'r bont yn dal yno a drws nesaf iddi mae amgueddfa yn yr hen gapel.



Mae Parc Tretadaith y Rhondda yn yn Nhrehafod, Porth . Yma ceir amgueddfa, oriel a phrofiad o amodau gwaith y glowyr.



Mae parc Castell Cyfarthfa, ym Merthyr, yn le braf ac mae amgueddfa y tu mewn i'r castell. Y tu allan i gatiâu'r castell gallwch fynd i weld y bwthyn lle ganed y cyfansoddwr Joseph Parry.



Adnewyddwyd Neuadd Tref Merthyr yn ddiweddar. Yn agos at y neuadd mae Canolfan Gymraeg Soar â'i Siop Lyfrau a'i chaffi.



Wrth deithio i fyny'r A469 tuag at Rhymni dewch i Dredegar Newydd lle cadwyd hen Dŷ Weindio gwaith glo McLaren. Datblygwyd amgueddfa a chanolfan addysg o fewn yr hen adeiladau.



Cyn troi o'r ffordd osgoi id ref Rhymni galwch i mewn i weld y tai unigryw yn Drenewydd. Yna ewch i mewn i Rhymni lle mae'r tai y ganed Thomas Jones ac Idris Davies i'w gweld. Mae llawer o wybodaeth ychwanegol am y ddau yn llyfrgell y dref.



Mae Blaenafon beth pellter o faes yr eisteddfod ond mae'n safle Treftadaeth Byd Eang. Gellir gweld olion y gwaith haearn, a'r tai a ddefnyddiwyd yn y gyfres deledu "Coal House" . Gerllaw mae Pwll Mawr a rehilffordd â threnau stêm. .



Dyma lun a baentiwyd gan yr artist Mary Jones o Gaerdydd. Mae'r lun yn dangos Merched y Wawr ar Faes yr Eisteddfod. Galwch i meirch y Wawr i'r gŵyl. Yn y babell, hefyd, mae gweithgareddau sy'n gysylltu â'r wawr.

CWM RHYMNI



aerffili. Arddangosir y llun gwreiddiol ym mhabell
ewn i gael gwybod mwy am hanes y straeon hyn.
iedig â'r llun. Bwriwch i mewn i'w gweld!

Y Digwyddiatur

Côr Cwm
Ni
YMARFER
Bob Nos Fawrth
6:30
Ysgol Trelyn


mentercaerffili.org


Taith Aberystwyth

Mehefin 17-18 June 2015

£90

Pris yn cynnwys / Price includes:

- * Noson gwely a brecwast / One night B&B
- * Cludiant / Transport
- * Taith gerdded 'Y Gwyl' / 'Hinterland' Walk
- * Ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales Visit







Codi o / Pick ups:

Gorsaf fws Caerffili **bus station** - 9:30am

Gosaf fws Coed Duon **bus station** - 10:00am

Bwtio erbyn / **book by:** Mai 8 May 2015

Lle i 10 ar y daith / 10 spaces

01443820913 bethanjones@mentercaerffili.org










Taith Aberystwyth

Mehefin 17-18 June 2015

£90

Pris yn cynnwys / Price includes

* Noson gwely a brecwast / One night B&B

* Cludiant / Transport

* Taith gerdded 'Y Gwyll' / 'Hinterland' Walk

* Ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru/

National Library of Wales Visit



Codi o / Pick up's

Gorsaf fws Caerffili *bus station* - 9:30am
Gorsaf fws Goed Duon *bus station* - 10:00am

Gosnell's Coed Dubh bus station - 10:00am

Bwctio erbyn / book by: Mai 8 May 2015

Lle i 10 ar y daith / 10 spaces:

01443820913 bethanjones@mentercaerffili.org



!!!!Gwasanaeth yn y Gymraeg!!!!

TACSI GORSAF CAERFFILI



Cysylltwch a KEITH ar
02922 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili

Defnyddiwch eich Cardiau Debyd/ Credyd

Aelwyd y Gwyndy

POB NOS FERCHER

5:30 – 7:30

Blynyddoedd 7, 8 a 9

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Safle'r Gwyndy

Cyswllt: Bethan Jones, Morgan Roberts neu'r Fenter Iaith

Pwyllgor Nelson
Eisteddfod yr Urdd

BINGO

Ail nos Wener y mis

7:15

Neuadd Gymuned

Nelson

50c

Manylion cysylltu â'r uchod:

Bethan Jones: bethanjones@mentercaerffili.org 01443 820913

Morgan Roberts: morgan@urdd.org

Marian Fairclough: faircloughme@aol.com 029 20885151

Llythyr gan gell leol Cymdeithas yr Iaith

Annwyl Ddarllenwyr,

Hoffwn ddod a'ch sylw chi at y ffaith bod Cymdeithas yr Iaith am herio'r pleidiau gwleidyddol drwy alw am "Miliwn o siaradwyr Cymraeg". Yn ôl y gymdeithas dyna'r amcan y dylai holl bleidiau'r Cynulliad gynnwys yn eu manifestos ar gyfer etholiad 2016. Daw'r neges wrth i'r Gymdeithas ddechrau hel syniadau ar-lein ar gyfer papur yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yn nhymor nesaf y Cynulliad, sef o 2016 ymlaen.

Dros y misoedd nesaf, bydd y mudiad yn mynd ati i drafod argymhellion gyda mudiadau ac arbenigwyr ynghylch sut orau y gellid symud tuag at gyrraedd y targedau canlynol yn ystod tymor nesaf y Cynulliad:

- cynyddu'r nifer o siaradwyr, gan anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg dros amser atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i'r wlad
- defnyddio'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd er mwyn sicrhau mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol o'r crud i'r bedd

Penderfynodd aelodau'r Gymdeithas ym mis Hydref y llynedd i fynd ati i greu dogfen er mwyn gosod allan gweledigaeth i'r Gymraeg ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Mae'r Gymdeithas yn credu y dylen ni fod yn uchelgeisiol ein meddylfryd, ac felly dylen ni fod yn anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Wrth gwrs, dyw'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg ddim yr unig fater sy'n cyfrif, ond mae man cychwyn da er mwyn sicrhau bod pawb yn cael byw yn Gymraeg. Rydyn ni nawr yn mynd ati i gwrdd â nifer o bobl ar lawr gwlad, mudiadau iaith, arbenigwyr ac eraill i drafod sut i gyrraedd yr uchelgais hynny. Credwn fod targed o'r fath yn mynd i roi ffocws clir i'r ddogfen bolisi y byddwn ni'n ei chyhoeddi erbyn yr Haf.

Bydd y Llywodraeth nesaf yn creu Strategaeth Iaith newydd, ac mae hyn yn cynnig cyfle ar gyfer gweledigaeth newydd. Mae ymgyrchoedd y Gymdeithas ers canlyniadau'r Cyfrifiad wedi dwyn ffrwyth i ryw raddau. Rydyn ni wedi gweld treth cyngor uwch ar ail gartrefi, newidiadau i'r system gynllunio a dileu'r cwrs byr TGAU ail iaith. Ond tameidiog mae'r datblygiadau hyn wedi bod, mae gwir angen Llywodraeth gyda syniadau ffres.

Heb amheuaeth bydd sôn am addysg fel un o'r arfau grymus sydd gennym i sicrhau ffyniant yr iaith. Ar hyn o bryd mae 79% o'n plant yn gadael addysg heb y gallu i gyfathrebu a gweithio drwy'r Gymraeg, mae hynny'n sgandal. Mae'r Athro Sioned Davies wedi amlinellu ffordd ymlaen, ac rydyn ni aros i'r pleidiau gwleidyddol ymateb i'r cynigion mae hi wedi amlinellu.

Bydd modd i bobl gyfrannu eu syniadau i weledigaeth Cymdeithas yr Iaith ar-lein drwy fynd i cymdeithas.cymru/2016ymlaen - bydd y mudiad yn derbyn sylwadau a syniadau tan Fai 7fed.

Yr eiddoch yn gywir,

Heledd Williams

Swyddog Maes y De,
Cymdeithas yr Iaith
02920 486469
[@Morgannwg/Gwent](http://Cymdeithas.org)



Beth wyddoch chi am enwogion sir yr Eisteddfod?

1. Aelod Seneddol dros Gaerffili oedd y gwrthwynebwr cydwybodol cyntaf i'w ethol i senedd San Steffan a hynny yn 1921. Pwy oedd y Cymro Cymraeg hwn?
2. Pwy gafodd ei eni yn rhif 100, High St, Rhymni?
3. Saif cerflun o ŵr enwog o Nelson y tu allan i brif fynedfa Stadiwm y Mileniwm un a enillodd y V.C. Beth oedd ei enw?
4. Ym mha bentref yng Nghwm Rhymni y canwyd emyn dôn enwog Daniel Protheroe "Price" am y tro cyntaf?
5. Pa gyn-arweinydd y Blaid Lafur oedd yn Aelod Seneddol dros Islwyn (Bedwellte cyn hynny)?
6. Beth yw enw'r cyfansoddwr enwog a aned yng Ngilfach Bargoed?
7. Pwy oedd yr arweinydd Cymraeg oedd â llys yng Ngelligaer a oedd yn ganolfan ddiwylliedig?
8. Pwy a sefydlodd y "Cylchgrawn Cymraeg" ac a gafodd ei eni yn fferm y Graddfa ar gyrion Llanbradach yn 1760?
9. Pwy ganodd Awdl y Glöwr i ennill Y Gadair yn Eisteddfod Caerffili 1950?
10. Cerflun o ba fardd enwog sydd ger ei gartref yn Rhymni yn agos i Lyfrgell y dref?
11. Pa enw sy'n cysylltu adeiladu castell Caerffili yn 1271 a Brwydr Bannockburn yn 1314?
12. Pa artist enwog baentiodd lun o draphont Bargoed?
13. Pwy oedd y bardd o Ynysddu ganodd yr awdl "Y Dymestl"?
14. Ble yng Nghwm Sirhywi y derbyniwyd gyntaf neges gan y Titanic yn dweud am yr helbul?
15. Pwy oedd y Cymro dewr a dorrodd i mewn i gastell Caerdydd liw nos a chipio gwraig a phlentyn yr arglwydd Normanaidd?
16. Pwy enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerffili 1950 gyda'i englyn "Ceiliog y Gwynt"?
17. Pryd cynhaliwyd yr is-etholiad yng Nghaerffili pan ddaeth Plaid Cymru yn agos i gipio'r sedd?
18. Pa flwyddyn ddigwyddodd trychineb Senghennydd pan laddwyd 439 o ddynion a bechgyn?
19. Pa ysgol(ion) fynychodd y pêl-droediwr enwog Aaron Ramsay?
20. Ble yn Sir Caerffili y claddwyd y bardd a'r arloeswr Ieuan Gwynedd?

Mae'r atebion ar waelod tudalen 21

Nodyn o ddiolch.

Amhosib yw mynegi y balchder, gwerthfawrogiad a'r diolch sydd gennyf i bob un ohonoch sydd wedi cyfrannu at lwyddiant Eisteddfod Caerffili dros y tair mlynedd diwethaf. Teimlais falchder wrth eich gweld chi - trigolion o bob ran o sir Caerffili yn cydweithio a chyd-dynnu wrth godi arian ac ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod a Chymreictod yr ardal. Teimlaf werthfawrogiad o'r gwaith ysgubol a'r ymroddiad y mae Swyddogion yr Urdd a'r Pwyllgor Gwaith wedi ymroi wrth dynnu Wyl Ieuenctid mwyaf Ewrop at ei gilydd yn ein milltir sgwâr. Diolch am yr holl gefnogaeth mae pob un ohonoch wedi rhoi i mi yn bersonol yn ystod y daith gyffrous. Braint o'r mwyaf oedd gweld cenhedlaeth newydd o Gymry Cymraeg a Di-Gymraeg y sir yn dod ynghyd i wneud Eisteddfod Caerffili yn un bythgofiadwy.

Gyda diolch o waelod calon,

Sara

(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith – Eisteddfod Caerffili a'r Cylch)

Cerflun: Olwyn y Dramiau (Wheel of Drams) - Gwyneth Davies

Lleoliad : Maesycwmmmer

Artist: Andy Hazel

Saif y cerflun hynod drawiadol yma yng nghanol pentref Maesycwmmmer ar ddechrau'r Llwybr Beicio Cenedlaethol sy'n mynd ar draws y draphont enwog sy'n croesi o Faesycwmmmer i Hengoed. Gellir croesi'r draphont o'r man yma a cherdded y llwybr nes cyrraedd Ffosygerddinen (yr enw Cymraeg am bentref Nelson). Nodir yr enw yma ar yr arwyddbost sydd ar ddechrau'r llwybr.

Gwaith y cerflunydd Andy Hazel yw'r cerflun - darn anarferol o gelf fodern a ffurfiwyd o gylch o dryciau dram glo i goffáu treftadaeth ddiwydiannol yr ardal hon o fewn hanes Cymoedd y De. Aeth y trê'n olaf dros y draphont yn 1964 ond fe ail agorwyd y draphont fel rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn y flwyddyn 2000. Dadorchuddiwyd y cerflun hwn yr un pryd i nodi dechrau'r llwybr.



Perchnogion pyllau glo oedd Evans & Bevan ac enwau ar gwmnïau mawr oedd yn berchnogion ar lawer o byllau glo oedd 'Ocean Coal' ac 'Empire Coal'. Mae'r llythrennau GW ac RR a welir ar y cerflun hefyd yn sefyll am enw'r cwmni oedd berchen y rheilffordd oedd yn gyfrifol am gludo'r glo ar draws y draphont – y 'Great Western Rail Road'.

Ganwyd y cerflunydd Andy Hazel ym Manceinion. Astudiodd ym Mhrifysgol

Reading i ddechrau gan symud i Göttingen yn

yr Almaen i astudio argraffu ac yna i Syracuse i astudio cerfluniaeth. Wedi teithio o amgylch y byd fe aeth i Ysgol Gelf Slade i wneud gradd Feistr ac yna i Ysgol Gelf Cheltenham i wneud Cymrodoriaeth am 9 mis. Mae ganddo ddiddordeb mewn treftadaeth. Os hoffech mwy o wybodaeth am Andy Hazel, ewch i'w wefan - <http://www.andyhazell.co.uk/>



Yr Hen Hanes yn cofio at yr Urdd – Dr Elin Jones

Bydd pebyll Eisteddfod yr Urdd eleni yn cwtsio'n agos at hen blasty Llancaeath Fawr: cadarnle newydd diwylliant ac iaith Cymru yng nghysgod un o'u hen gadarnleoedd yn y blynyddoedd a fu.

Adeiladwyd y plasty gwreiddiol yn oes Elisabeth, a disgynyddion Ifor Bach, tywysog Senghennydd a herwgipiodd Iarll Normanaidd Caerdydd ym 1158, oedd Pritchardiaid, ei berchnogion cyntaf. Olion castell o gyfnod Cadwallon, mab Ifor, sydd i'w canfod ar Dwyn y Castell ym mhentref Gelligaer.

Erbyn oes Elisabeth, roedd y bonedd am gael



cartrefi mwy cysurus, ac adlewyrcha Llancaeath Fawr syniadau'r oes honno am foethusrwydd. Byddai'r beirdd yn cael croeso ar aelwyd newydd y teulu. Yma, mae'n debyg, y canodd Dafydd Benwyn farwnad Mari Carne 'yr em dirion', etifeddes o

Fro Morgannwg a ddaeth â'i gwaddol i gyfoethogi'r plasty hwn yn y Blaenau.

Byddai'r teulu'n mynd i eglwys y plwyf yng Ngelligaer, sydd yn henach o lawer na'r plasty, ac yn sefyll gerllaw safle caer Rufeinig. Efallai bod y traddodiad Cristnogol yn yr ardal hon yn mynd yn ôl i'r cyfnod hwnnw: os cywir yw'r dehongliad o linell yn y gerdd *Armes Prydain*, (c.OC 930) - 'Yn yr ing, Gelli Gaer am Dduw ysydd'. Byddai rhai o'r teulu'n cofio efallai am Huw Dafydd, y bardd-offeiriad yno yn amser Harri VIII, a luniodd garolau oedd yn adrodd hanes y ffydd i'w

plwyfolion anllythrennog. Yn sicr y byddai bonedd a gwrêng wedi mwynhau'r gwyliau mabsant a'u dawnsio a'u rhialtwch: cynhelid y rheiny yn agos at yr eglwys hefyd! Hen iawn yw hanes tafarn yr 'Harp' gerllaw'r eglwys, ac mae'n llawn haeddu ei henw. 'Tafarnwr a thelynor' oedd y David Davies oedd yn ei chadw ym 1814, ac roedd ei fab yn delynor adnabyddus yn ei ddydd, dan yr enw Dafydd Penyarreg.

Ond daeth tro ar fyd teulu'r plas yng nghyfnod y Stiwartiaid. Ym 1638 etifeddodd Edward Pritchard yr ystâd. Roedd yn Biwritan selog ac un o arweinwyr yr Anghydfurfwyr cynnar a addolai yn y dirgel yng Nghraig yr Allt ar y mynydd ger Caerffili. Er ei fod yn bosibl iddo groesawu'r brenin Siarl I i'r plas, mae'n sicr iddo gymryd rhan yn erbyn y brenin ym mrwydr Sain Ffagan ym 1648. Mae'r hen Ymneilltuaeth wedi ei wreiddio'n ddwfn yn yr ardal hon, a'i ôl i'w ganfod yng nghapeli hynafol yr ardal. Daw'r trawstiau yn yr Hen Dŷ Cwrdd yn Hengoed, a adeiladwyd ym 1829, o'r capel a godwyd gan eu rhagflaenwyr ym 1710.

Felly mae hen hanes i'n diwylliant yn ogystal ag i'n hiaith yma ar dir Llancaeath. Ac mae'r holl hanes yn eich amgylchynu yma hefyd - o olion cyn hanes ar y mynyddoedd, i gaer, castell, plasty, eglwys a chapel yr ardal. A dan eich traed mae olion hen byllau glo'r ardal, lle bu teuluoedd cyfan yn crafu am fywoliaeth trwy weithio glo, ac yn disgrifio amodau eu gwaith wrth Gomisiynwyr y Goron ym 1842. O dafarn y Coliars (y 'Rowan Tree' heddiw) aeth criw o lowyr ar eu ffordd i Gasnewydd ym 1839, i ymladd dros Siarter y Bobl.

Nid dyma'r tro cyntaf i welydd Llancaeath Fawr atseinio i firi yn y Gymraeg, a bydd y rhai sy'n dod i'r ardal adeg Eisteddfod yr Urdd eleni yn ddolen mewn cadwyn sy'n ein cydio o hyd i'n Cymreictod, ein hanes a'n diwylliant.

Atebion i'r Cwis “Beth Wyddoch chi am enwogion sir yr Eisteddfod?”

- | | | |
|-------------------|---------------------|---|
| 1. Morgan Jones | 7. Llywelyn Bren | 14. Gelligroes |
| 2. Thomas Jones | 8. Morgan John Rhys | 15. Ifor Bach |
| 3. Tasker Watkins | 9. Gwilym Tilsley | 16. T.Llew Jones |
| 4. Pontlotyn | 10. Idris Davies | 17. 1968 |
| 5. Neil Kinnock | 11. de Clare | 18. 1913 |
| 6. Alun Hoddinott | 12. W.S.Lowry | 19. Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni |
| | 13. Islwyn | 20. Groeswen |

Ysgol Gymraeg Caerffili

Traws gwlad - Aberystwyth 9fed o Fai - Dewi Mock ac Ethan Hills, Blwyddyn 5 Penwythnos prysur a chyffrous a gafwyd yn Aberystwyth. Diolch o galon i Mrs Rees am drefnu i'r ysgol gystadlu yng nghamp genedlaethol traws gwlad yr Urdd, a hefyd i'r rhieni am gludo'r plant yno. Rhedodd Jacob Reynolds fel y gwynt i ennill y teitl pencampwr blwyddyn 6 a daeth tîm bechgyn Blwyddyn 5 yn 2ail.

Buddugoliaeth eto i'r tîm rygbi!!!!

Cystadlu brwd a gafwyd yn nhwrnament rygbi'r Urdd yn Aberystwyth, dydd Sul 10fed o Fai. Roedd tîm yr ysgol yn cynrychioli



Gwent. Am brofiad cyffrous a blinedig a gafwyd. Cafodd y tîm rygbi diwrnod i'r brenin yn nhwrnament yr Urdd yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni hefyd. Llongyfarchiadau arbennig i'r tîm am ennill y gystadleuaeth 7 bob ochr am y 3ydd tro mewn 5 mlynedd. **Pêl Rwyd** - Ffion Windsor, Blwyddyn 5 Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd ein hysgol am gyrraedd rowndiau terfynol cystadleuaeth y Sir, 30ain o Ebrill yn y Coed Duon. Aelodau'r tîm oedd Ffion Windsor, Arwen Riding, Manon Blackford, Evie Keeler, Georgia Davies, Cerys Edwards, Bethan Teague, Megan Pepperall, Tegan Evans, Amy Pearce, Ioan Hill, Abraham Morgan-Petrie a Lewis Adam.

S4C yn ffilmio - Teagan Louise Briggs a Non Barrett. Bwrlwm a chyffro a fu yn ein hysgol prynhawn Mercher, 6ed o Fai, pan ddaeth S4C i ffilmio disgyblion y gân actol a'r parti dawnsio gwerin yn ymarfer ar gyfer

Eisteddfod yr Urdd illi! Cafodd Dewi Mock, Seren Davies a Non Barrett eu cyfweled i drafod eu profiadau.



Tîm pêl-droed yn y rowndiau terfynol

- Ieuan Rees Blwyddyn 5 a Jacob Reynolds Yn Ystrad Mynach ar y 1af o Fai bu cystadlu brwd a chaled yn enwedig y gêm gyntaf a'r drydedd. Cydweithiodd y tîm yn wych gan basio a saethu yn grefftus. Sgoriodd Ieuan Rees gôl odidog o hanner ffordd, saethodd dros ben y gôl geidwad ac mewn i gornel uchaf y rhwyd! Y gêm gyntaf oedd yr un fwyaf cyffrous gyda'n gôl heb ei chaniatáu a'r tîm arall yn sgorio yn eiliadau olaf y gêm. Am ddiwrnod bythgofiadwy!

Gwyddbwyll - Oliver Scarfe Blwyddyn 6 Am brofiad anhygoel a gafodd disgyblion yr ysgol ddydd Sadwrn, 9fed o Fai yn cystadlu yn y Megafinals Gwyddbwyll. Da iawn i'r canlynol am gystadlu - Lewis Jones, Morgan Wright, Axel Stubbins, Peter Angove ac Oliver Scarfe. Llongyfarchiadau arbennig i Lewis Jones am gyrraedd y Gigafinal ym Manceinion. John Thornton sy'n rhedeg clwb gwyddbwyll ar ôl ysgol ac yn ystod amser cinio dydd Mercher a drefnodd y cystadlu.

Clwb Ffrangeg - Alex Roberts, Blwyddyn 6 Clwb Ffrangeg arbennig sydd gennym ar gyfer yr Adran Iau. Rydym yn cwrdd amser cinio dydd Iau ac mae Mrs Todd yn trefnu gweithgareddau diddorol fel dawnsio, blasu bwyd, creu bathodynau a dysgu sut i gyfri yn Ffrangeg ac ati. C'est fantastique!

Canu yn y Capel - Kaylee-Beth a Non Barrett

Ddydd Sul y degfed o Fai, aeth disgyblion yr ysgol i gapel Tonyfelin i gymryd rhan mewn cymanfa ganu. Canu swynol a gafwyd ac roedd naws arbennig yn y capel. Braf oedd gweld y capel yn orlawn. Miss Odette Jones oedd yn arwain a Mrs Helen Hollyman yn cyfeilio ar yr organ. Canodd disgyblion a chyn-ddisgyblion Cwm Rhymni offerynnau ynghyd ag eitemau gan Gôr Cwm Ni.

Ffilmwyd y cyfan gan S4C ar gyfer y rhaglen 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol.'

Codi arian ar gyfer yr Eisteddfod - Eto!! Peter Angove a Dewi Mock Gwledd o noson a gafwyd yng nghapel Tonyfelin wrth i gân actol Ysgol Gymraeg Caerffili ddiddanu'r gynulleidfa gyda chyngerdd arbennig i godi arian. Codwyd £464.25 gydag eitemau gan ddisgybl

talentog o Gwm Rhymni, Aisha Palmer yn canu'r delyn ynghyd â Chôr Merched Caerffili .



Cyngerdd - Ffion Cook a Seren Davies.

Nos Fawrth, 21ain o Ebrill, perfformiodd ysgolion Cymraeg Caerffili mewn cyngerdd yn y Gwyndy. Pwrpas y gyngerdd oedd codi arian i Ganolfan Gymunedol y Glowyr. Perfformiodd yr ysgolion eitemau fel canu, dawnsio, llefaru. Meddai Ann Lewis un a drefnodd y noson, "Roedd pawb wedi mwynhau a'r safon yn arbennig o uchel."

A wyddoch chi.....?

- Mae gan Ranbarth Gwent 5600 o aelodau, mwy nag unrhyw Ranbarth arall yng Nghymru.
- Hefyd mwy o aelodau ym Mlwyddyn 5,6 a 7 nag unrhyw Ranbarth arall yng Nghymru
- Amser hyn llynedd dim ond 3729 o aelodau oedd gennym, felly mae nawr 1800 yn fwy.
- Fe gofrestrodd dwywaith yn fwy o aelodau i gystadlu yn yr Eisteddfodau lleol yn Rhanbarth Gwent eleni na llynedd
- Fe gofrestrodd dros hanner ysgolion cynradd ail iaith ardal bwrdeistref sirol Caerffili i gystadlu yn yr Eisteddfodau lleol a'r rhan fwyaf yn gwneud hynny am y tro cyntaf erioed.
- Allan o 95 o gystadlaethau yn yr Eisteddfodau lleol enillwyd 40% o rain gan ysgolion oedd yn cystadlu am y tro cyntaf.
- Roedd dros 1000 o bobl yn yr Eisteddfod Gylch Cynradd yn ardal Caerffili ar y 7fed o Fawrth
- Bu'n rhaid cau maes parcio Ysgol Gyfun Cwm Rhymni am nad oedd lle i fwy o geir.
- Erbyn haf 2015 bydd dros 1500 o aelodau cynradd ac uwchradd ail iaith wedi ymweld â gwersylloedd yr Urdd. (Llangrannog. Glan-llyn a Chaerdydd)

Mae Angharad Wyn Jones a Helen Greenwood yn dymuno diolch i holl ysgolion y Rhanbarth am eu cefnogaeth yn ystod 2014-2015. Rydym yn dymuno POB LWC i bawb sydd yn cystadlu ar y Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod ac yn edrych ymlaen at gydweithio a phawb ar ôl yr Eisteddfod.



Os oes gennych gysylltiadau â Chaerffili? Mae'n siŵr eich bod yn adnabod yr adeilad yma. Wrth gwrs, dyma Ysbyty'r Glowyr, rhan bwysig o dreftadaeth yr ardal hon. Fe gasglodd 10,000 o lowyr lleol arian i agor yr ysbyty yn fuan ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf a hon fu prif ysbyty'r ardal tan 2011.

Yn dilyn agoriad yr ysbyty newydd yn Ystrad Mynach, penderfynwyd codi tai ar safle Ysbyty'r Glowyr ond yn ffodus, trwy ymdrech lew rhai o drigolion yr ardal, achubwyd yr adeilad hyfryd a hanesyddol yma. Y bwriad yw ei newid yn ganolfan gymunedol fel y gall yr ardal i gyd elwa o dreftadaeth y glowyr. Mae'r gwaith adfer ac addasu yn mynd yn ei flaen a bydd y ganolfan yn agor yn hwyrach eleni, canolfan ddwyieithog wrth gwrs.

Gawsoch chi eich geni yn Ysbyty'r Glowyr neu a gawsoch driniaeth yno? Fuoch chi'n gweithio yno efallai? Rydym yn awyddus iawn i ddarganfod cymaint â phosibl am hanes yr hen ysbyty felly os oes gennych stori i'w hadrodd neu wybodaeth i'w roi, cysylltwch â Katherine Hughes, ein hysgrifennydd cyffredinol ar katherine.hughes@btconnect.com

Os hoffech wybod mwy am yr holl weithgareddau sy'n digwydd i baratoi ar gyfer agoriad y ganolfan gymunedol, ewch i'n gwefan www.caerphillyminerscentre.org.uk



Ymunwch â'r Her Cyw iâr a helpu i haneru nifer yr achosion o wenwyn bwyd Campylobacter

Fel cenedl, rydym ni'n caru cyw iâr – mae'n dod â phawb ynghyd o amgylch y bwrdd bwyd am ginio dydd Sul ac o gwmpas y barbeciw ar brynhawniau braf.

Ond mae un broblem fach; gall cyw iâr achosi gwenwyn bwyd. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn amcangyfrif y gellir olrhain oddeutu 280,000 o achosion o wenwyn bwyd y flwyddyn i Campylobacter – germ sy'n byw gan amlaf ar gyw iâr amrwd. Mae'n amhosibl ei weld, ei arogl na hyd yn oed ei flas mewn bwyd, ond os yw'n effeithio arnoch chi – gyda symptomau yn cynnwys poen yn yr abdomen, dolur rhydd difrifol ac, weithiau, chwydu – nid ydych yn debygol o'i anghofio. Ar ei waethaf, gall Campylobacter eich lladd neu eich parlysu.

Mae'r Asiantaeth eisiau haneru nifer yr achosion o wenwyn bwyd Campylobacter erbyn diwedd 2015. Bydd gwneud addewid i wynebu'r Her Cyw iâr, a gwneud o leiaf un peth i gadw ein hunain yn ddiogel ac yn iach, yn ein helpu ni i gyrraedd y nod hwn.

Felly, ar gyfer yr Wythnos Diogelwch Bwyd (18 i 24 Mai), mae'r Asiantaeth yn gofyn i chi wynebu'r her ac addo:

Gorchuddio cyw iâr amrwd a'i storio ar wahân i fwydydd eraill, a'i gadw ar silff waelod yr oergell

Peidio â golchi cyw iâr amrwd, gan fod hyn yn tasgu germau


Golchi popeth sydd wedi dod i gysylltiad â chyw iâr amrwd â sebon a dŵr poeth – eich dwylo a'ch offer

Gwneud yn siŵr bod cyw iâr wedi'i goginio'n drylwyr, gan sicrhau nad oes unrhyw gig pinc, ei fod yn stemio'n boeth a bod y suddion yn rhedeg yn glir

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.food.gov.uk/chickenchallenge a chlicio ar 'Cymraeg'

Nina Purcell

Chwedlau Cwm Rhymni : Cawr Gilfach Fargoed



Amser maith yn ôl roedd Cwm Rhymni yn llawn o dylwyth teg. Bob dydd o haf roedden nhw'n nofio yn yr afonydd a'r llynnoedd ac yn gorwedd yn yr haul. Roedden nhw mor fach roedden nhw'n gallu cysgodi dan fadarch pan roedd hi'n bwrw glaw.

Bob nos bydden nhw'n dod allan o'u hogofau i ddawnsio. Roedd Cwm Rhymni yn gwm hapus ac roedd y tylwyth teg mor hapus â'r gog.

Yna daeth hen gawr creulon i fyw yng Nghilfach Fargoed. Roedd mor dal â thŵr eglwys. Roedd e'n hela r tylwyth teg bach am fwyd. Roedd e mor llwglyd roedd yn eu bwyta wrth y dwsin. Roedd gan y cawr neidr ddof. Pan roedd e wedi bwyta digon roedd e'n bwydo r tylwyth teg i'r neidr. Roedd ofn mawr ar y tylwyth teg ac arhoson nhw yn eu hogofau.

Ar ôl amser hir penderfynodd un dylwythen deg ladd y cawr am ei fod wedi bwyta ei thad a'i mam. Roedd pob tylwythen deg yn gallu siarad iaith yr adar felly aeth i Fferm Pencod Fawr, Bedwellte i siarad â'r gw dihŵ ddoeth a oedd yn byw yn y goeden afalau. Bob nos roedd y cawr yn mynd i garu â gwrach o dan y goeden afalau. Un canol nos roedd y wrach yn hwy'r yn cyrraedd ac fe aeth y cawr i gysgu.

Roedd y gw dihŵ gyda help gweithwyr fferm wedi gwneud bwa a saeth o ganghennau'r goeden afalau. Anelodd yr aderyn clyfar at y cawr a'i ladd tra roedd yn cysgu. Roedd y gw dihŵ yn hapus iawn a hedfanodd i ffwrdd gan ganu. Mae disgynyddion y gw dihŵ yn dal i ddod i Gilfach Fargoed i ganu am y cawr.

Pan welodd y tylwyth teg y cawr marw, lladdon nhw'r wrach. Penderfynodd y tylwyth teg gladdu'r corff yn union ble roedd wrth droed y goeden afalau. Palon nhw dwll a chynnau tân i gael gwared o'r drewdod. Aeth y twll ar dân hefyd a gwylion nhw nes i'r tân ddiffodd.

Yna dringodd un dylwythen deg fusneslyd i waelod y twll a gweld carreg sgleiniog ddu yno. Dywedodd hen dylwythen deg ddoeth, "Y garreg ddu achosodd y tân yn y twll". Cariodd y tylwyth teg y cerrig du nôl i'w hogofau. A doedd eu haelwydydd byth yn oer wedyn.


cawr - giant yn llawn o – full of cysgodi - to shelter madarch - mushrooms
ogof/ogofau - cave(s) mor hapus â'r gog - very happy (literally as happy as the cuckoo)
creulon - cruel mor dal â thŵr eglwys – as tall as a church tower hela - to hunt
llwglyd – hungry neidr ddof – a tame snake bwydo – to feed gw dihŵ ddoeth – wise owl
iaith yr adar – the language of the birds i garu â – to make love to gwrach – witch
y goeden afalau – the apple tree bwa a saeth - bow and arrow anelodd – aimed
ladd – kill disgynyddion – descendants claddu - bury corff – body
yn union - exactly palu - dig drewdod - stink diffodd – extinguish carreg sgleiniog – a
shiny stone achosodd – caused aelwydydd – hearths byth - never

Posau'r Plant gan Mary Jones

Allwch chi ddod o hyd i NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Allwch chi ddod o hyd i'r ddau siap sydd yr un fath?



Yr Atebion

Y ddau siap sy'n UNION yr un fath y Rhif 5 a Rhif 14



Gobeithio i chi fwynhau darllen y rhifyn hwn o "Cwmni". Beth, felly, am i chi ei dderbyn pob mis? Y gost am 10 rhifyn y flwyddyn yw £8 neu £15 drwy'r post. Ewch ati, felly, i gwblhau'r ffurflen isod.



("Tua'r Goleuni" gynt)

Gwarant Archeb Barhaol

Standing Order Mandate

I'r Rheolwr

To the Manager

..... Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/Building Society*

Cyfeiriad y Banc.....*Bank Address*

Debydwch o fy nghyfrif £8 (neu £15 os drwy'r post) ar y 3ydd o bob blwyddyn

gan ddechrau ym mis201.. nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

Please debit from my account £8 (or £15 if received by post) on the 3rd of.....

annually starting in the month of201.. until I advise you to the contrary

Yn daladwy i:

Payable to:

Banc	Enw'r Cyfrif	Rhif Didoli	Rhif y Cyfrif
HSBC Treganna / Canton	Cwmni	40-16-12	91728113

Enw(au) y cyfrif

Name(s) on the account

--

Côd Didoli *Sort Code*

--	--	--	--	--	--

Rhif y Cyfrif *Account Number*

--	--	--	--	--	--	--	--

Eich Cyfeiriad *Your Address:*

..... Côt Post *Post Code*

Llofnod *Signature:*..... Dyddiad *Date:*.....

Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda i'r Trysorydd:
Eyron Thomas, 4 Rolls Avenue, Penpedairheol, Hengoed CF82 8HP

neu at y sawl sy'n dosbarthu'r Papur Bro i chi, NID i'r Banc.

Llun y Mis



Artist y mis hwn o Grŵp Dydd Gwener yw Chris Pitts. Yn wreiddiol o ddwyrain Llundain mae wedi byw yng Nghaerffili yn ystod y rhan fwyaf o'i bywyd. Ers ymddeol o fod yn hyfforddwraig marchogaeth lwyddiannus iawn datblygodd ei ddiddordeb mewn celf. Christine gafodd y syniad o ffurfio grŵp arlunio saith mlynedd yn ôl ac mae wedi trefnu nifer o'u gweithgareddau yn ystod y cyfnod hwnnw: gan gynnwys arddangosfeydd yng Ngerddi Botanegol Cenedlaethol Cymru, yr eglwys Norwegaidd, Castell Coch a llyfrgelloedd lleol. Bydd arddangosfa nesaf y grŵp yng nghapel Bethel yr Annibynwyr ar Heol Nantgarw yn ystod Gŵyl Flodau Caerffili rhwng y 12fed a'r 14eg o Fehefin. Bydd hwn yn gyfle i brynu rhai o'r lluniau a ymddangosodd ar y dudalen hon yn ystod y misoedd diweddar.

Ar y dudalen flaen gwelwn mwy na 200 o ddisgyblion ysgolion ardal Caerffili yn dawnsio gyda Mr Urdd o flaen castell Caerffili ddydd Iau, 7 Mai. Roedd hyn ar gyfer trêl fideo S4C fydd yn denu sylw at raglenni'r sianel ar gyfer Eisteddfod yr Urdd eleni. Roedd y plant lleol yn dawnsio i gân Edward H Dafis, '*Cân i Jên*' Ond mae'r gân wedi ei diweddarau ar gyfer Eisteddfod eleni gan S4C,. Efallai i chi ei gweld eisoes.

Mae'r ffilm hyrwyddo yn adrodd stori merch ddychmygol o'r enw Jên, merch sydd wedi dysgu Cymraeg gyda chymorth mudiad yr Urdd. Yn portreadu Jên, y brif ran, mae Ffion Griffith sy'n dod o Faesycwmmmer, ac yn ddisgybl blwyddyn 7 yn Ysgol Cwm Rhymni. Dywed Ffion sy'n 12 oed, "Dw i wedi cael lot o hwyl a phrofiad gwych yn cymryd rhan yn y ffilmio heddiw. Dw i'n cystadlu mewn sawl cystadleuaeth eleni, yn cynnwys yr unawd alaw werin, deuawd a pharti canu - a dw i'n gobeithio ennill mewn un gystadleuaeth!"